| |
|---|
| **Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**<br><br>**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**<br>**DIGWYDDIADAU CHWARAEN DAN DO**<br>**LLUN – SAD: 1100 – 2400 yn ddyddiol**<br>**SUL: 1200 – 2330**<br><br>**CYFLENWI ALCOHOL**<br>**LLUN – IAU: 1110 – 2400 yn ddyddiol**<br>**GWE a SAD: 1100 – 0100 yn ddyddiol**<br>**SUL: 1200 – 2330**<br><br>**AMSERAU ANSAFONOL**<br>**POB DYDD SUL GWYL Y BANC: Awr terfynol am gyflenwi alcohol 0100**<br>**NOSWYL NADOLIG: Awr terfynol am gyflenwi alcohol 0030**<br>**DYDD SAN STEFFAN: Awr terfynol am gyflenwi alcohol 0130**<br>**NOSON CALAN: O ddechrau oriau Nos Calan tan diwedd oriau Dydd Calan** |
| **Oriau agor y safle**<br><br>**LLUN – IAU: 1100 – 0030 yn ddyddiol**<br>**GWE a SAD: 1100 – 0130 yn ddyddiol**<br>**SUL: 1200 – 2400**<br><br>**POB DYDD SUL GWYL Y BANC: Awr terfynol 0130**<br>**NOSWYL NADOLIG: Awr terfynol 0100**<br>**DYDD SAN STEFFAN: Awr terfynol 0200**<br>**NOSON CALAN: O ddechrau oriau Nos Calan tan diwedd oriau Dydd Calan** |
| **Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**<br><br>**AR AC ODDI AR Y SAFLE** |

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**Trwydded Safle yn amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd o dan Ddeddf Trwyddedu 1964.**

**HYRWYDDO AMCANION TRWYDDEDU:**

a. **Cyffredinol – Pob un o'r pedwar amcan trwyddedu:** Y Deiliad Trwydded Bersonol/Goruchwyliwr Safle Dynodedig arfaethedig yn brofiadol iawn yn y farchnad drwyddedig (30 mlynedd). Tynnwyd ei sylw at Ddeddf Trwyddedu 2003, ac felly hefyd yr holl staff. Cytunwyd ar ddatganiad gweithredu rhwng y cwmni a'r tenant, a'r olaf, yng nghontractau'r cytundeb tenantiaeth, i gydymffurfio â'r gyfraith.
b. **Atal Troseddau ac Anhrefn:** Polisi prawf oedran ar waith – y Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn adnabod yr holl drigolion lleol. Dim ymgyrchoedd/oriau gwerthu diodydd rhad. Dim alcohol i'w werthu i unrhyw un sy'n ymddangos yn feddw. Digon o seddi ar gael. Y cwsmeriaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth tacsi i fynd adre.
c. **Diogelwch Cyhoeddus:** Defnyddir gwydr gwydn. Dim cynwysyddion agored i'w cymryd oddi ar y safle. Staff y gegin wedi cael hyfforddiant glendid bwyd/iechyd a diogelwch llawn. Diffoddwyr/blancedi tân ac ati yn eu lle. Pecyn cymorth cyntaf yn y gegin a'r bar.
d. **Atal Niwsans Cyhoeddus:** Adloniant i'w ddarparu'n achlysurol yn unig ar gyfer digwyddiadau preifat/elusennol. Rheolir lefel y gerddoriaeth gefndir. Cydgysylltu â chymdogion ynghylch unrhyw gŵynion am sŵn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
e. **Amddiffyn Plant Rhag Niwed:** Caniateir plant 15 oed neu iau yn y bwyty neu'r bar stabl ar gyfer digwyddiadau preifat yn unig, yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Caniateir mynediad i rai 16/17 oed ond nid i yfed alcohol oni bai bod hynny gyda phryd o fwyd ac yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Gofynnir am brawf oedran os bydd y cwsmer yn ddieithr. Neb dan 18 oed i chwarae'r peiriannau AWP. Neb dan 16 oed i brynu tybaco neu sigaréts.

